# Cymdeithas Cymru-Ariannin

**Elusennol Gofrestredig rhif 507737**

# CYFANSODDIAD

1. Enw'r Gymdeithas yw **Cymdeithas Cymru-Ariannin** (y cyfeirir ati fel 'Y Gymdeithas' yn y ddogfen hon).

2. Mae'r Gymdeithas yn Gymdeithas Elusennol Gofrestredig, rhif 507737.

3. Nod y Gymdeithas yw:
   - addysgu'r cyhoedd, yn enwedig pobl Cymru, am hanes, iaith, sefydliadau, diwylliant a bywyd celfyddydol ac economaidd y Wladfa Gymreig ym Mhatagonia, Ariannin, a hyrwyddo'r addysg honno;
   - addysgu trigolion y Gwladfeydd Cymreig ym Mhatagonia ynghylch hanes, iaith, sefydliadau a diwylliant Cymru, a hyrwyddo'r addysg honno.

4. Er hyrwyddo'r nod y mae gan y Gymdeithas y gallu a ganlyn:
   - trefnu a noddi teithiau cyfnewid i athrawon, gweinidogion, myfyrwyr a phobl ifanc rhwng Cymru ac Ariannin;
   - noddi, darparu, cyfansoddi a chyhoeddi unrhyw waith llenyddol a fwriadwyd i gynorthwyo neu i gryfhau'r berthynas rhwng Cymru ac Ariannin;
   - noddi myfyrwyr o Ariannin sy'n dymuno dod i Gymru i ehangu eu gorwelion addysgol;
   - sicrhau, casglu a derbyn arian a chronfeydd trwy gyfrwng cyfraniadau, rhoddion, cymorthdaliadau neu unrhyw gyfrwng cyfreithlon arall;
   - gwneud unrhyw beth cyfreithlon arall er hyrwyddo'r nod uchod a sicrhau dealltwriaeth a pherthynas dda rhwng Cymru ac Ariannin.

5. Cymraeg yw iaith y Gymdeithas a'i gweithgareddau. Caniateir cyfieithiadau i Sbaeneg ac i Saesneg pan fo galw am hynny.

6. Mae Aelodaeth y Gymdeithas yn agored i unrhyw un sydd wedi talu'r Tâl Aelodaeth blynyddol. Bydd yr Aelodaeth yn dod i ben os bydd y tanysgrifiad hwnnw dros 12 mis ar ôl ei amser.

7. Swyddogion y Gymdeithas yw'r canlynol:
   - Llywydd
   - Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith
   - Is-gadeirydd y Pwyllgor Gwaith
   - Ysgrifennydd
   - Trysorydd
   - Ysgrifennydd Aelodaeth

8. Gall y Gymdeithas anrhydeddu aelodau a roddodd gyfraniad nodedig i'r Gymdeithas drwy eu hethol yn Llywyddion Anrhydeddus. Ni fydd eu nifer ar unrhyw adeg yn fwy na dau. Cânt eu henwebu gan y Pwyllgor Gwaith a'u hethol drwy bleidlais dangos dwylo fel arfer (os na fydd y Pwyllgor Gwaith yn penderfynu yn wahanol) yn y Cyfarfod Blynyddol ar argymhelliad y Pwyllgor Gwaith. Bydd pob un yn dal y swydd am oes, neu tan y derbynnir ymddiswyddiad ysgrifenedig oddi wrtho/wrthi. Gall y Llywydd/ion Anrhydeddus fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith a phleidleisio a chyfrannu mewn unrhyw fodd arall yn unol â dymuniad y Pwyllgor Gwaith.

9. Rhaid i'r swyddogion fod yn aelodau o'r Gymdeithas. Rhaid i enwebiadau am swyddogion fod gan yr ysgrifennydd un diwrnod ar hugain cyn y Cyfarfod Blynyddol, neu fel y nodir mewn gohebiaeth â'r aelodau. Bydd y swyddogion yn dal eu swyddi am y cyfnodau isod ac yn cael eu hethol fel a ganlyn:

- Llywydd — Etholir ef/hi am dymor o bum mlynedd mewn Cyfarfod Blynyddol. Hyd cyfnod Llywydd fydd hyd at bum mlynedd a bydd yn agored i'w (h)ailethol am ail gyfnod.
- Ysgrifennydd — Etholir ef/hi yn flynyddol yn y Cyfarfod Blynyddol a daw ei g/chyfnod yn y swydd i ben yn y Cyfarfod Blynyddol canlynol oni chaiff ei (h)ailethol yn y Cyfarfod Blynyddol hwnnw.
- Trysorydd — Etholir ef/hi yn flynyddol yn y Cyfarfod Blynyddol a daw ei g/chyfnod yn y swydd i ben yn y Cyfarfod Blynyddol canlynol oni chaiff ei (h)ailethol yn y Cyfarfod Blynyddol hwnnw.

10. Swyddogaeth y Llywydd yw cynrychioli'r Gymdeithas a gweithredu fel Cadeirydd y Cyfarfod Cyffredinol.

11. Swyddogaeth yr Ysgrifennydd yw trefnu cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith, gan baratoi'r agenda, cadw cofnodion a'u dosbarthu i aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn brydlon. Bydd yr Ysgrifennydd hefyd yn trefnu'r Cyfarfod Blynyddol a threfnu'r etholiadau. Ef/hi fydd yn cysylltu â'r aelodau i roi gwybodaeth iddynt am weithgareddau'r Gymdeithas ac am faterion perthnasol a hefyd yn cynnal a diweddaru'r wefan.

12. Swyddogaeth y Trysorydd yw cadw cyfrifon y Gymdeithas, agor cyfrifon banc, paratoi'r fantolen flynyddol a threfnu i'r cyfrifon gael eu harchwilio'n flynyddol. Awdurdodir y Trysorydd ynghyd ag un o ddau/ddwy aelod arall o'r Pwyllgor Gwaith, a benodir gan y Pwyllgor Gwaith i'r diben hwn, i arwyddo sieciau ac i awdurdodi symudiadau ariannol yn electronig, pan fo angen. O bryd i'w gilydd gofynnir i'r Gymdeithas roi cymorth i weinyddu cronfeydd allanol, a disgwylir i'r Trysorydd ymgymryd â'r gwaith cyn belled â'i fod yn gydnaws â nod y Gymdeithas ac yn gyfreithlon. Bydd gan y Trysorydd yr hawl i drin y Cyfrif Banc a gwneud trosglwyddiadau drwy'r We. Bydd angen llofnod dau o dri enwebedig i arwyddo sieciau neu i drosglwyddo symiau yn electronig ar ran y Gymdeithas.

13. Mae gan y swyddogion yr hawl i wario hyd at £2,000 y flwyddyn heb orfod cael caniatâd y Pwyllgor Gwaith ymlaen llaw.

14. Blwyddyn Ariannol y Gymdeithas yw 1 Mehefin –31 Mai.

15. Bydd y Pwyllgor Gwaith yn penodi Cadeirydd fydd yn gyfrifol am lywio a chadeirio cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith am gyfnod o dair blynedd. Bydd y Pwyllgor Gwaith hefyd yn penodi Is-gadeirydd i ddirprwyo dros y Cadeirydd yn ei (h)absenoldeb.

16. Gall y Pwyllgor Gwaith benodi Ysgrifennydd Aelodaeth os oes angen o blith aelodau'r Pwyllgor hwnnw er mwyn sicrhau ystod eang o aelodau gweithredol ac i ddenu aelodau newydd. Penodir ef/hi gan y Pwyllgor Gwaith. Ef/hi fydd yn cadw manylion y rhestr aelodaeth ac yn adrodd i'r Pwyllgor Gwaith ar unrhyw faterion yn ymwneud ag aelodaeth.

17. Bydd y Pwyllgor Gwaith yn cyfarfod o leiaf dair gwaith y flwyddyn, ac yn gyfrifol am:
    - weithredu dros y Gymdeithas ac ar ei rhan a phenderfynu'n derfynol ym mhob mater sydd yn ymwneud â nod a chyllid y Gymdeithas;
    - baratoi adroddiad ar waith y Gymdeithas yn flynyddol er gwybodaeth i'r aelodau ac i gyflawni gofynion y Comisiwn Elusennau;
    - benderfynu swm y Tâl Aelodaeth blynyddol.

18. Awdurdodir y Pwyllgor Gwaith gan y Cyfarfod Blynyddol i redeg gwaith y Gymdeithas ar eu rhan. Bydd y Pwyllgor Gwaith yn cynnwys y canlynol:
    - Llywydd
    - Ysgrifennydd
    - Trysorydd

    ynghyd â:
    - Llywyddion Anrhydeddus a ddewisir o dan gymal 8;
    - naw (9) aelod a enwebwyd ac a etholwyd drwy bleidlais ddirgel yn y Cyfarfod Blynyddol. I sicrhau parhad etholir tri/tair aelod bob blwyddyn am gyfnod o dair blynedd, gyda'r hawl i gael eu hailethol;
    - un cynrychiolydd o 'Undeb Cymru a'r Byd';
    - un cynrychiolydd o bob un o'r canghennau sy'n bodoli yn unol â chymal 22;
    - hyd at bedwar (4) aelod, a gyfetholir gan y Pwyllgor Gwaith am gyfnod o dair blynedd pan fo angen, a chanddynt hawl i bleidleisio.
      Pwrpas cyfethol yw llenwi bylchau a chael arbenigedd nad yw ar gael yn y Pwyllgor Gwaith, e.e. 'Cyfreithiwr Mygedol' neu unrhyw swydd arall a benodir o bryd i'w gilydd i gwrdd â nodau'r Gymdeithas.

19. Os bydd aelod yn gadael y Pwyllgor am unrhyw reswm cyn diwedd ei d/thymor bydd gan y Pwyllgor Gwaith hawl i gyfethol aelod arall tan ddiwedd tymor yr aelod hwnnw/honno.

20. Bydd y Cadeirydd, Ysgrifennydd a'r Trysorydd yn aelodau cyn-swyddogion (ex-officio) o'r Pwyllgor Gwaith am flwyddyn ar ôl eu hymddeoliad.

21. Y Pwyllgor Gwaith fydd Ymddiriedolwyr yr elusen.

22. O bryd i'w gilydd gofynnir i aelod o'r Pwyllgor Gwaith gynrychioli'r Gymdeithas ar bwyllgorau cymdeithasau, mudiadau a sefydliadau y tu allan i'r Gymdeithas. Caniateir hyn drwy bleidlais o ddangos dwylo yn y Pwyllgor Gwaith, os na fydd y Pwyllgor Gwaith yn penderfynu yn wahanol. Dylid cadarnhau yr enwau yn flynyddol gan y Pwyllgor Gwaith.

23. I gynnal cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith bydd rhaid cael cworwm o draean o aelodau'r Pwyllgor hwnnw. Bydd gan bob aelod ac eithrio'r Cadeirydd un bleidlais ym mhob cyfarfod a bydd gan y Cadeirydd yr hawl i bleidlais fwrw, yn ôl yr angen. Pleidleisir ar bob achlysur yn y Pwyllgor Gwaith drwy godi dwylo os na fydd y Pwyllgor Gwaith yn penderfynu yn wahanol.

24. O bryd i'w gilydd gellir sefydlu is-bwyllgor o'r Gymdeithas er hyrwyddo agwedd benodol o weithgaredd y Gymdeithas. Rhaid i'r is-bwyllgor fod yn ddarostyngedig i Gymdeithas Cymru-Ariannin ac yn unol â nod Cymdeithas Cymru-Ariannin, y fam Gymdeithas, a bydd rhaid i'r is-bwyllgor adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Gwaith drwy eu cynrychiolydd ar Bwyllgor Gwaith y Gymdeithas. Ni chaniateir i'r is-bwyllgor rwymo'r Gymdeithas i unrhyw gytundeb cyfreithiol na gwariant ariannol heb ganiatâd blaenorol a phenodol y Gymdeithas. Gall y fam Gymdeithas drosglwyddo symiau o dro i dro at ddefnydd is-bwyllgor, a bydd gan yr is-bwyllgor yr hawl i wario'r arian hwnnw yn unol ag amcanion y fam Gymdeithas.

25. Gellir sefydlu canghennau o Gymdeithas Cymru-Ariannin mewn gwahanol ardaloedd. Enwir y canghennau hyn yn Cymdeithas Cymru-Ariannin — Cangen 'ardal arbennig'. Caniateir i'r canghennau godi Tâl Aelodaeth i dalu eu costau lleol ac i godi arian fel bo'r galw. Ni chaniateir i'r canghennau rwymo Cymdeithas Cymru-Ariannin i unrhyw gytundeb. Rhaid i'r canghennau:

- weithio yn unol â nod Cymdeithas Cymru-Ariannin;
- annog eu haelodau i ymaelodi a thalu Tâl Aelodaeth i Gymdeithas Cymru-Ariannin yn ganolog;
- ethol cynrychiolydd ar y Pwyllgor Gwaith o blith y rhai sydd wedi talu eu Tâl Aelodaeth;
- adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Gwaith drwy Ysgrifennydd Cymdeithas Cymru-Ariannin parthed eu gweithgareddau;
- drosglwyddo arian sylweddol (mwy na £500) a gesglir ganddynt, ar ôl talu costau unrhyw weithgaredd a drefnir ganddynt, i Gymdeithas Cymru-Ariannin i gael ei wario drwy Bwyllgor Gwaith y Gymdeithas yn ganolog;
- ymgymryd â'r gwaith o drefnu digwyddiadau yn eu hardal;
- gymryd rhan flaenllaw mewn digwyddiadau a drefnir gan y Gymdeithas, megis pabell yn yr Eisteddfod Genedlaethol neu ymweliad gan fintai o Batagonia (e.e. ymweliad côr o Batagonia), pan fo hyn yn digwydd yn eu hardal.

26. Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas fel arfer ym mis Awst yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol. Anfonir yr Agenda a'r Adroddiad Blynyddol o leiaf 20 diwrnod ymlaen llaw i bob aelod, a chyflwynir yr Adroddiad Blynyddol a'r Fantolen Ariannol yn y cyfarfod. Yn y cyfarfod hwn etholir Llywydd(ion) Anrhydeddus am oes, yr Ysgrifennydd a'r Trysorydd am gyfnod o flwyddyn. Hefyd etholir cyfran o aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn unol â chymal 18 uchod. Cyflawnir yr etholiad hwn yn y Cyfarfod Blynyddol drwy bleidlais ddirgel.

27. Gellir newid y Cyfansoddiad hwn mewn Cyfarfod Blynyddol o'r Gymdeithas. Rhaid rhoi rhybudd o 20 diwrnod i'r aelodau, ynghyd â datganiad i egluro'r newidiadau a fwriedir. Pleidleisir drwy ddangos dwylo yn y Cyfarfod Blynyddol a rhaid cael mwyafrif o ddwy ran o dair o'r pleidleisiau o blaid y newid. Ni chaniateir unrhyw newid a all beri i'r Gymdeithas golli ei statws elusennol.

28. Mae gan y Pwyllgor Gwaith yr hawl i fabwysiadu a chyhoeddi Rheolau Sefydlog sydd yn gyson â'r Cyfansoddiad hwn. Daw y Rheolau Sefydlog i rym ar unwaith ond gellir eu hadolygu mewn Cyfarfod Blynyddol.

29. Gellir penderfynu terfynu gweithgareddau'r Gymdeithas gan y Cyfarfod Blynyddol drwy bleidlais ddirgel a mwyafrif o ddwy ran o dair o'r aelodau.
    Dosberthir unrhyw arian sydd yn perthyn i'r Gymdeithas, ar ôl talu pob treuliau a dyledion, i hyrwyddo un o amcanion y Gymdeithas neu i Sefydliad Elusennol o ddewis y Pwyllgor Gwaith.

30. Derbyniwyd y Cyfansoddiad hwn yn y Cyfarfod Blynyddol ar Faes Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2017 ar 10 Awst 2017.

**Awst 2017**